# Cyngor Cymuned Llangelynnin Community Council

## Cofnodion y Cyfarfod Blynyddol a gynhaliwyd Nos Fercher - 09.05.18 - yn Y Ganolfan, Llwyngwril

**Presennol:** Geraint Edwards (Cadeirydd), Dylan Thomas, Ian Williams, Keith Carroll, Geraint Micah, David Griffiths, Malcolm Hills, Glenda Edwards (Clerc).

1. **Croeso'r Cadeirydd**: Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r **cyfarfod blynyddol**, a thrafodwyd swyddi newydd am 2018-19.
   **Cadeirydd:** **Ian Williams** ➞ Cynnig: Geraint Edwards Eilio: Dylan Thomas
   **Is-gadeirydd:** **Huw Davies** ➞ Cynnig: Geraint Edwards Eilio: Dylan Thomas
   (Huw Davies i gadarnhau nad oes ganddo wrthwynebiad i hyn).
   **Cynrychiolwyr:** **Un Llais Cymru** ➞ Dylan Thomas a Kevin Goodchild. **Pig yr Allt** ➞ Geraint Edwards.
   **Heddlu** ➞ Ian Williams. **Y Ganolfan** ➞ Keith Carroll.

2. **Ymddiheuriadau:** John Griffiths, Louise Hughes (Cynghorydd Sirol).

3. **Cadarnhau'r Cofnodion Blaenorol:** Derbyniwyd y cofnodion o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar y **14.03.18** fel rhai cywir.
   **Cynnig** – David Griffiths **Eilio** – Geraint Micah **Arwyddwyd** – Ian Williams.

4. **Materion yn codi o'r Cofnodion Blaenorol (14.03.18):**
   a) **Wal derfyn y Cae Chwarae a Hendre -** perchennog yr Hendre ddim am gytuno gyda'r cynnig diwethaf.
   Gofynnodd i'r aelodau drafod rhoi ffens ar ben y wal derfyn ochr yr Hendre, cyn iddo gytuno i'r cynnig diweddaraf gan y cyngor cymuned.
   **Penderfyniad** ➞ ni fydd y Cyngor Cymuned yn rhoi ffens i fyny ar ben y wal derfyn ochr yr Hendre.
   Er Gwybodaeth - perchnogion y tai sydd yn terfynu ar ochr arall i'r cae chwarae (Ffordd Celynnin) sydd wedi trefnu a thalu i roi ffens derfyn i fyny yn y gerddi nhw.
   Ian Williams wedi gofyn am gael golwg ar ddogfennau "Trawsgludiad" (Conveyance) y Cae Chwarae.

   b) **Llywodraethwyr Ysgol Craig y Deryn –** David Griffiths wedi cael gwybod gan Glerc y Llywodraethwyr nad oedd yn llwyddiannus i ymuno â Chorff Llywodraethu Ysgol Craig y Deryn wedi'r cwbl.

   **Materion Cymunedol - Atebion Cyngor Gwynedd**
   a) Tŷ Golau, Ffordd y Coleg - mae'r wal wedi ei chodi gan gontractwr preifat.
   b) Bin Ysbwriel Llangelynnin - bydd swyddog o Gyngor Gwynedd yn edrych i mewn i'r sefyllfa.
   c) Difrod i Ffordd Tydfarch/Cefnmeusydd - bydd y gwaith yma yn cael ei ymgymerid pan fydd y contractwr torri coed wedi gorffen tynnu'r coed allan.
   **Penderfyniad** ➞ llythyr i Gyngor Gwynedd i ofyn a yw'n bosib rhoi "chyfyngiad pwysau a lled" ar y ffordd yma?
   d) Cyflwr gwael y ffyrdd ym mhentref Llwyngwril - mae'r gwaith yma wedi cael ei drefnu.
   e) Arwydd ar ochr y ffordd ar "Yr Allt", Friog – mae'r gwaith yma wedi cael ei drefnu.

5. **Gohebiaeth:**
   a) Hysbyseb gan Playsafe/ROSPA – archwiliad o'r cae chwarae wedi ei drefnu erbyn Mis Mehefin.
   b) Gwybodaeth gan Gyngor Gwynedd ynglŷn â Rhaglen Waith Mis Mai.
   c) Gwybodaeth ynglŷn â Chyfarfod Blynyddol Apêl Ysbyty Goffa Tywyn a'r ardal.
   d) Gwybodaeth ar y Cynllun Datblygu Lleol adoledig Eryri 2016 – 2031.
   e) Cyfoeth Naturiol Cymru yn gofyn am wybodaeth i'w gynnwys yn eu prosiect i hybu Llwybr yr Arfordir Cymru.
   f) Gwybodaeth ynglŷn â phrosiect "Wi-Fi am ddim i gymunedau", cyfarfod yn Y Ganolfan, Porthmadog - 15.05.18
   ➞ Geraint Edwards yn cynnig mynd i'r cyfarfod.

6. **Materion Cynllunio**:

- **NP5/69/16C – Fferm Castell Mawr, Llanegryn, LL36 9NH**
  Codi Uned 2,700 medr sgwâr i 32,000 o ieir i gynhyrchu wyau, gwelliannau i'r trac mynedfa, a gwaith daear gysylltiol.

  **Penderfyniad** ➞ dim sylwadau/gwrthwynebiadau gan y Cyngor Cymuned i gyflwyno i'r Parc Cenedlaethol Eryri.

  **Doedd gan aelodau Cyngor Cymuned ddim gwrthwynebiad i'r cais cynllunio yma mewn egwyddor, a doedd 'run o'r cynghorwyr wedi derbyn unrhyw gwyn gan aelodau'r gymuned ynglŷn â'r cais cynllunio yma.**
  Nodwyd fod yr ymgeisydd wedi cysylltu i ofyn a fyddai'r Cyngor Cymuned yn fodlon anfon llythyr i'r Parc i gefnogi'r cais yma - cafwyd pleidlais ar hyn, gyda'r penderfyniad yn erbyn sgwennu i'r Parc.

7. **Adroddiad Ariannol**: Adolygiad ariannol wedi ei wneud.
Derbyniwyd Adroddiad Mis Mawrth ac Ebrill 2018 i fod yn gywir.
**Cynnig –** Keith Carroll **Eilio –** Malcolm Hills **Arwyddwyd –** Ian Williams.

**a)** Praesept wedi ei dderbyn (am 6 mis) = **£4,900.00.**
**b)** Ffurflen ad-daliad TAW 2017-18 wedi ei pharatoi i'w gyrru i'r Swyddfa Dreth (HMRC) = **£298.40**
**c)** **BHIB** – polisi yswiriant y Cyngor Cymuned wedi ei adolygu – i gael ei adnewyddu erbyn 01.06.18
**Penderfyniad** ➞ adnewyddu'r polisi hefo BHIB = **£748.01**
**Cynnig:** Geraint Edwards **Eilio:** Malcolm Hills.
**d)** Rhent y Ganolfan yn ddyledus am y flwyddyn = **£100.00**
**e)** Anfoneb wedi ei dderbyn gan CG am ddarpariaeth y toiledau cyhoeddus am 2018-19 = **£2,000.00**
**h)** Adolygu Polisi Cyfraniadau Ariannol ➞ dim newid = Y Ganolfan £1,000.00, Ambiwlans Awyr £250.00, Mynwentydd Llangelynnin £500.00 – diwedd y flwyddyn ariannol. Ceisiadau eraill = £250.00.
**i)** Adolygiad o gyflog a chosta'r clerc:

❖ ***Geraint Edwards wedi datgan diddordeb, ar lafar ac yn ysgrifenedig drwy lenwi ag arwyddo'r ffurflen addas, a heb gymerid rhan yn y drafodaeth, drwy adael yr ystafell.***

Gweddill o'r aelodau wedi trafod a phawb yn gytûn gyda chynnydd o 2½% ar gyflog presennol y clerc …
**Penderfyniad** ➞ Cyflog = £1,113.00 // Costa = £200.00 // Cynnydd o 2½% = £27.00 = **£1,340.00**
Cod treth wedi newid – felly dim angen talu PAYE bellach.
Cyflog a chosta'r clerc i gael ei dalu dwywaith y flwyddyn ag i gael ei adolygu yn flynyddol.
**Cynnig:** Dylan Thomas **Eilio:** Keith Carroll.

**Cyfrifon y Cyngor Cymuned – 2017 - 2018:**

- Derbyniwyd Cyfrifon y Cyngor Cymuned am y flwyddyn yn diweddi 31.03.18 yn gywir.
  **Cynnig –** Geraint Micah **Eilio –** Dylan Thomas **Arwyddwyd –** Ian Williams**.**
- Ffurflen Flynyddol 2017-18, wedi ei pharatoi yn barod i'r Archwiliad Mewnol ar y 21.05.18.
- Datganiad Llywodraethu Blynyddol (Rhan 1 + 2) wedi eu cwblhau gyda'r aelodau.
- Penodwyd Uned Archwilio Fewnol Cyngor Gwynedd i archwilio cyfrifon y Cyngor Cymuned eisoes (11.05.16).
- Cwmni BDO wedi eu penodi i wneud yr Archwiliad Allanol Blynyddol ar y 02.07.18.
- Hysbysiad o hawliau'r etholwyr â'r Archwiliad i'w arddangos yn gyhoeddus yn Llwyngwril, Rhoslefain ac ar wefan y Cyngor Cymuned o 21.05.18 tan 03.06.18.

8. **Adroddiadau gan y Cynrychiolwyr:** Dim

9. **Adroddiad y Cynghorydd Sirol:** Dim yn bresennol.

**10. Unrhyw Fater Arall:**

a) **Cynnal a chadw'r llwybrau** - Geraint Micah yn gofyn a oes bosib iddo gael ei dalu ar ôl bob toriad yn lle un taliad ar ddiwedd y flwyddyn? ➞ dim gwrthwynebiad i hyn. **Cynnig**: Dylan Thomas **Eilio:** Keith Carroll.

b) **Toiledau Cyhoeddus Llwyngwril** - Keith Carroll yn cynnig ffeindio gwybodaeth ynglŷn â gosod blychau arian.

c) **Cae Chwarae, Llwyngwril** - trefnu dyddiad i roi y postiai gol newydd i fyny ➞ 17.05.18.

d) **Mynwent y Crynwyr** - Malcolm Hills yn gofyn pwy sy'n gyfrifol am Fynwent y Crynwyr? Mae o eisoes wedi torri'r gwair, ac yn cynnig ei fod yn fodlon cadw'r fynwent yn daclus.
➞ Cyngor Cymuned yn helpu gyda chynnal a chadw'r fynwent ers 2016, ar ôl trafodaeth gyda Mr Tom Brown a Dr Gethin Evans, Sefydliad Y Crynwyr. Cynllun torri gwair wedi ei gyflwyno i'r Cyngor Cymuned adeg yna.
➞ Manylion cyswllt Y Crynwyr i gael ei roi i Malcolm Hills.

e) **Croesfan Llwybr y Perthi** – angen gwaith cynnal a chadw ➞ hysbysu Rheolwr Croesfanau Network Rail.

f) **Llwybr y Perthi** - canghennau isel o'r coed ar draws y llwybr ➞ Malcolm Hills yn cynnig eu torri.

g) **Llwybr y Perthi** – wyneb y llwybr yn gwaethygu gyferbyn a Borthwen ➞ hysbysu Cyngor Gwynedd.

## Dyddiad y Cyfarfod Nesaf :- Nos Fercher – 13.06.18 - am 7 o'r gloch yn y Ganolfan

**Arwyddwyd**
**Cadeirydd ……………………………………………………………………………………………… Dyddiad ……………………………**